# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

Y Comisiwn Etholiadol

## Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu os na allwch bleidleisio yn bersonol, gallwch gael rhywun yr ydych yn ymddiried ynddo i fwrw eich pleidlais drosoch. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy os oes gennych anabledd ac na allwch bleidleisio'n bersonol.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r ffurflen hon os ydych wedi'ch cadw mewn ysbyty o dan adrannau sifil Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'r ffurflen hon ond yn gymwys yng Nghymru.

Mae'n rhaid eich bod chi a'ch dirprwy wedi cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio.

Mae'r rheolau ynghylch pwy all fod yn ddirprwy yn wahanol yn dibynnu ar y math o etholiad rydych am bleidleisio ynddo:

Ar gyfer **Etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol:**

- Gall dirprwy bleidleisio dros berthnasau agos a hyd at ddau berson arall mewn etholiad. Perthnasau agos yw priod, partner sifil, rhiant, tad-cu/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr/wyres yr ymgeisydd.

Ar gyfer **Etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu:**

- Gall dirprwy bleidleisio dros uchafswm o 4 o bobl. Ni all mwy na 2 o'r bobl hynny fod yn etholwyr domestig. Mae etholwyr domestig yn bleidleiswyr nad ydynt yn bleidleiswyr tramor nac yn bleidleiswyr gwasanaeth. Mae etholiadau Senedd y DU yn cynnwys etholiadau cyffredinol Senedd y DU, is-etholiadau a deisebau adalw.

I gael rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy ddirprwy a ffyrdd eraill o wneud cais, ewch i **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

## Sut y gallaf wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- Gofynnwch i rywun sy'n barod i fod yn ddirprwy ar eich rhan a phleidleisio drosoch ac sy'n gallu gwneud hynny.
- Llenwch y ffurflen gais pleidleisio drwy ddirprwy. Rhaid i chi roi rheswm pam bod angen i chi bleidleisio drwy ddirprwy a gall fod angen i rywun cymwys ategu eich cais. Gweler y nodiadau ar dudalen 2 am wybodaeth am bwy all ategu eich cais.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan ofynnol o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod. Mae angen yr wybodaeth hon er mwyn atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.
- Os oes gwybodaeth goll neu anghywir yn eich cais, efallai y bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol leol yn cysylltu â chi. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ddarparu dogfennau ategol a gall gymryd mwy o amser i brosesu eich cais.
- **Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.** Mae ei manylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

**Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol.**

Pan fyddwch yn gwneud cais am bleidlais newydd drwy ddirprwy, rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen gais erbyn **5pm, 6 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.**

Pan fyddwch yn newid neu'n canslo pleidlais bost, pleidlais drwy ddirprwy, neu bleidlais bost drwy ddirprwy, rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen gais erbyn **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.**

Os nad ydych wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid i chi wneud cais i gofrestru cyn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yw **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.** Cofrestrwch i bleidleisio ar-lein yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol leol yn cadarnhau bod eich cais wedi cael ei dderbyn neu ei wrthod.
- Caiff eich dirprwy gerdyn pleidleisio drwy ddirprwy sy'n dweud wrtho ble a phryd i bleidleisio ar eich rhan.
- Rhaid i chi ddweud wrth eich dirprwy sut rydych am iddo bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd, plaid neu ganlyniad.
- Rhaid i'ch dirprwy fynd i'ch gorsaf bleidleisio leol i bleidleisio ar eich rhan. Os na all eich dirprwy gyrraedd yr orsaf bleidleisio, gall wneud cais i bleidleisio ar eich rhan drwy'r post. Gall wneud cais i wneud hyn hyd at **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.** Gall gysylltu â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol i gael rhagor o fanylion ac i ofyn am ffurflen gais am bleidlais bost. Am fanylion cyswllt, ewch i **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**
- Os byddwch yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, gallwch bleidleisio eich hun ar yr amod nad yw eich dirprwy eisoes wedi gwneud hynny neu nad yw wedi gwneud cais i bleidleisio ar eich rhan drwy'r post.

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

## Pwy all ategu fy nghais?

Os ydynt yn darparu gofal neu'n eich trin oherwydd yr anabledd, gall yr unigolion canlynol ategu eich cais:

- ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys deintydd, optegydd, fferyllydd, osteopath, ceiropractydd neu seicolegydd)
- nyrs gofrestredig
- gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig.

Os yw'n darparu gofal, yn eich trin, neu wedi trefnu gofal neu gymorth o ran yr anabledd, gall yr unigolyn canlynol ategu eich cais:

- gweithiwr cymdeithasol cofrestredig.

Neu gall yr unigolion canlynol ategu eich cais:

- y rheolwr, neu ei gynrychiolydd awdurdodedig, yn yr ysbyty cofrestredig lle rydych yn cael eich trin
- y person cofrestredig sy'n rhedeg y cartref gofal preswyl rydych yn byw ynddo
- warden yr eiddo rydych yn byw ynddo a ddarperir ar gyfer pobl o oedran pensiwn neu bobl anabl.

Os ydych wedi'ch cofrestru'n ddall gan awdurdod lleol a bod eich cais yn seiliedig ar eich dallineb, nid oes angen i neb ategu eich cais. Rhaid i chi gwblhau rhan 2B.

Os ydych yn cael Budd-dal lles (a restrir isod) oherwydd yr anabledd a nodir yn y cais, yna nid oes angen i neb ategu eich cais. Rhaid i chi gwblhau rhan 2C.

Mae budd-daliadau lles yn cynnwys:

- cyfradd uwch o elfen symudedd lwfans byw i'r anabl
- cyfradd uwch o elfen symudedd y taliad annibyniaeth personol
- taliad annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Os ydych chi wedi cael eich cadw yn yr ysbyty o dan adrannau sifil Deddf Iechyd Meddwl 1983, rhaid i chi gwblhau rhan 2D. Rhaid i'ch cais gael ei ategu gan:

- rheolwr yr ysbyty cofrestredig lle rydych wedi'ch cadw, neu ei gynrychiolydd awdurdodedig.

## Datganiad preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rhoi gyda'r ffurflen gais hon.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data at ddibenion deddfwriaeth diogelu data. Ei sail gyfreithlon dros gasglu'r wybodaeth bersonol yw bod angen y gwaith prosesu er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd, fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a rheoliadau cysylltiedig.

Mae gofyniad cyfreithiol ar y Swyddfa Cofrestru Etholiadol i brosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. I gael rhagor o wybodaeth, dylech gyfeirio at ei hysbysiad preifatrwydd. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad ei wefan a'i fanylion cyswllt yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr**.

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

## Dim ond un person a all gofrestru i bleidleisio drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon

Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen, anfonwch hi i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol. Gallwch ddod o hyd i'w gyfeiriad yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

## 1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enw(au) cyntaf (yn llawn)

Eich cyfeiriad (ble rydych wedi cofrestru i bleidleisio

Cod post

## 2 Pam rydych chi am bleidleisio drwy ddirprwy?

Darllenwch y nodiadau ar y tudalennau blaenorol a chwblhewch naill ai 2A, 2B, 2C neu 2D yn esbonio pam na allwch bleidleisio'n bersonol.

**2A** – Mae gennyf yr anabledd canlynol:

**2B** – Rwyf wedi fy nghofrestru'n ddall gan (yr awdurdod lleol canlynol):

**2C** – Rwy'n cael taliad budd-dal. Nodwch pa daliad budd-dal a restrir ar dudalen 2 rydych yn ei gael a'ch anabledd:

**2D** – Rwyf wedi cael fy nghadw yn (yr ysbyty canlynol):

## 3 Eich manylion cyswllt

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Mae nodi eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn yn rhoi ffordd gyflym a hawdd i ni gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

## 4 Pa fath o etholiadau ydych chi am gael pleidlais drwy ddirprwy ar eu cyfer?

Rwyf am bleidleisio drwy ddirprwy ym mhob etholiad rwy'n gymwys i bleidleisio ynddo (ticiwch unrhyw flychau sy'n gymwys):

- ☐ Etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol
- ☐ Etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Os byddwch yn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol, llenwch **adran 4A.**

Os byddwch yn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, llenwch **adran 4B.**

Os byddwch yn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer pob etholiad, llenwch **adrannau 4A a 4B.**

**Mae'r rheolau ar bwy all weithredu fel eich dirprwy yn wahanol yn dibynnu ar y math o etholiad rydych am bleidleisio ynddo. Dylech sicrhau eich bod wedi darllen y nodiadau ar dudalen 1 cyn llenwi gweddill y ffurflen.**

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

## 4A Pleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol

### Pwy rydych am iddo fod yn ddirprwy ar eich rhan?

Enw llawn

Perthynas deuluol (os o gwbl)

Cyfeiriad llawn

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

### Am faint hoffech chi gael pleidlais drwy ddirprwy?

Hoffwn bleidleisio drwy ddirprwy (ticiwch un blwch yn unig)

☐ am gyfnod amhenodol (pleidlais drwy ddirprwy barhaol)

☐ ar gyfer yr etholiadau'r Senedd/etholiadau cynghorau lleol a gynhelir ar

D D M M B B B B

☐ am y cyfnod

rhwng D D M M B B B B

a D D M M B B B B

## 4B Pleidlais drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

### Eich rhif Yswiriant Gwladol

Nodwch eich rhif Yswiriant Gwladol isod. Gallwch ei weld ar eich slip cyflog neu ar lythyrau ynglŷn â threth, pensiynau neu fudd-daliadau.

Os na allwch roi rhif Yswiriant Gwladol, dywedwch pam. Gallwch gyflwyno'r ffurflen hon o hyd a bydd rhywun yn cysylltu â chi. Gall gymryd mwy o amser i brosesu eich cais.

### Pwy rydych am iddo fod yn ddirprwy ar eich rhan?

Enw llawn

Cyfeiriad llawn

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

### Am faint hoffech chi gael pleidlais drwy ddirprwy?

Hoffwn bleidleisio drwy ddirprwy (ticiwch un blwch yn unig):

☐ am gyfnod amhenodol (pleidlais drwy ddirprwy barhaol)

☐ ar gyfer etholiadau Senedd y DU/etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a gynhelir ar

D D M M B B B B

☐ am y cyfnod

rhwng D D M M B B B B

a D D M M B B B B

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

## 5 Eich dyddiad geni a datganiad

**Datganiad:** Rwyf wedi gofyn i'r unigolyn/unigolion rwyf wedi'i enwi'n/wedi'u henwi'n ddirprwy(on) a gallaf gadarnhau ei fod/eu bod yn barod i bleidleisio drosof a'i fod/a'u bod yn gallu gwneud hynny.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. Rwy'n deall ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon, ac y gallwn gael fy ngharcharu am hyd at chew mis a/neu gael dirwy.

**Dyddiad geni:** Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

D D M M B B B B

**Llofnod:** Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y llinellau llwyd.

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.

## 6 Dyddiad y cais

**Dyddiad heddiw** D D M M B B B B

## 7 Ategu'r cais hwn

Darllenwch y nodiadau er mwyn gweld pwy all ategu'r cais hwn. Cwblhewch naill ai 7A, 7B, 7C, 7D neu 7E ar dudalennau 6 - 8:

Cwblhewch **7A** os ydych yn darparu gofal a/neu'n trin yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod yn:

- ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys deintydd, optegydd, fferyllydd, osteopath, ceiropractydd neu seicolegydd)
- nyrs gofrestredig
- gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig

Cwblhewch **7B** os ydych yn darparu gofal, triniaeth a/neu wedi trefnu gofal neu driniaeth o ran yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod yn:

- weithiwr cymdeithasol cofrestredig

Cwblhewch **7C** os ydych yn

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel rhywun sy'n rhedeg cartref gofal preswyl
- warden eiddo a ddarperir ar gyfer pobl o oedran pensiwn neu bobl anabl

Cwblhewch **7D** os ydych yn:

- yn rheolwr, neu ei gynrychiolydd, yn yr ysbyty cofrestredig lle caiff yr ymgeisydd ei drin.

Cwblhewch **7E** os ydych yn ategu'r cais ar gyfer ymgeisydd sydd wedi'i gadw mewn ysbyty, a'ch bod yn:

- rheolwr, neu ei gynrychiolydd awdurdodedig, yn yr ysbyty cofrestredig lle caiff yr ymgeisydd ei gadw.

**Nid oes angen i'r cais gael ei ategu os yw Rhan 2B neu 2C ar dudalen 3 yn gymwys.**

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

## 7A Os ydych yn darparu gofal a/neu'n trin yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod yn:

- ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys deintydd, optegydd, fferyllydd, osteopath, ceiropractydd neu seicolegydd)
- nyrs gofrestredig
- gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Amod cymhwyso'r sawl sy'n ategu eich cais

**Datganiad:**

- Rwy'n darparu gofal a/neu'n trin yr ymgeisydd am yr anabledd a nodir yn y cais
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio na phleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol neu tan:

D D M M B B B B

Llofnod y sawl sy'n ategu'r cais

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

## 7B Os ydych yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sy'n darparu gofal, triniaeth a/neu wedi trefnu gofal neu gymorth o ran yr anabledd a nodir yn y cais

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Amod cymhwyso'r sawl sy'n ategu eich cais

**Datganiad:**

- Rwy'n darparu gofal a/neu'n trin yr ymgeisydd, neu wedi trefnu gofal neu gymorth ar gyfer yr ymgeisydd, am yr anabledd a nodir yn y cais
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio na phleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol neu tan:

D D M M B B B B

Llofnod y sawl sy'n ategu'r cais

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

## 7C Os ydych wedi'ch cofrestru fel rhywun sy'n rhedeg cartref gofal preswyl, neu'n warden eiddo a ddarperir ar gyfer pobl o oedran pensiwn neu bobl anabl

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Amod cymhwyso'r sawl sy'n ategu eich cais

**Datganiad:**

- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio na phleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol neu tan:

D D M M B B B B

Llofnod y sawl sy'n ategu'r cais

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

## 7D Os mai chi yw rheolwr neu gynrychiolydd awdurdodedig yr ysbyty lle caiff yr ymgeisydd ei drin

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Rôl y sawl sy'n ategu'r cais yn yr ysbyty lle mae'r ymgeisydd yn cael triniaeth

**Datganiad:**

- Rwyf wedi fy awdurdodi i ategu'r cais hwn
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio na phleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol neu tan:

D D M M B B B B

Llofnod y sawl sy'n ategu'r cais

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

# Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

## 7E Os mai chi yw rheolwr neu gynrychiolydd awdurdodedig yr ysbyty lle mae'r ymgeisydd wedi'i gadw

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

[ ]

Rhif ffôn (dewisol)

[ ]

E-bost (dewisol)

[ ]

Rôl y sawl sy'n ategu'r cais yn yr ysbyty lle mae'r ymgeisydd yn cael triniaeth

[ ]

Y ddarpariaeth statudol a ddefnyddir i gadw'r ymgeisydd

[ ]

**Datganiad:**

- Rwyf wedi fy awdurdodi i ategu'r cais hwn
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio na phleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod amhenodol neu tan:

D D / M M / B B B B

Llofnod y sawl sy'n ategu'r cais

[ ]

Dyddiad heddiw

D D / M M / B B B B